

Glastir Organig

ESTYN Y CONTRACT

- CWESTIYNAU CYFFREDIN

C: A fydd modd cael estyniad i bob contract organig sy'n dod i ben ar 31/12/2019?

A: Mae datganiad y Gweinidog ar 10 Rhagfyr 2018 yn cadarnhau hyn:

https://llyw.cymru/ps80m-i-glastir-ar-grant-cynhyrchu-cynaliadwy?_ga=2.148720755.552039744.1571050993-1961586754.1570010800

C: Pam nad oes modd cael estyniad o 2 flynedd i'r contract sy'n dod i ben ar 31/12/2019?

A: Mae modd cael estyniad o ddwy flynedd, ond byddwn yn ei gynnig mewn dau gam. Bydd y cynta'n para o 1 Ionawr 2020 tan 31 Rhagfyr 2020 a bydd yr ail yn dechrau ar 1 Ionawr 2021 ac yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2021.

Dyddiadau Ymuno'r Parseli â chontract Glastir Organig	Cynnig yr Estyniad 1af o Flwyddyn (Yn para 01/02/2020 - 31/12/2020)	Cynnig yr Ail Estyniad o Flwyddyn (Yn para 01/01/2021 - 31/12/2021)
Parseli a ymunodd yn 2015 (01/01/2015)	Byddant	Byddant
Parseli a ymunodd yn 2016 (01/01/2016)	Na fyddant	Byddant
Parseli a ymunodd yn 2017 (01/01/2017)	Na fyddant	Na fyddant

Fydd DIM estyniad i gontractau tir 2017 gan i'r Gweinidog ddatgan mai dim ond tan 31/12/2021 y bydd modd cael estyniad.

C: Beth os nad yw'r manylion yn estyniad fy nghontract yn gywir mwyach?

A: Rydyn ni'n eich cynghori i dderbyn y cynnig i estyn eich contract cyn y terfyn amser o 21 niwrnod a rhoi gwybod i RPW trwy'ch cyfrif RPW am unrhyw newidiadau i'ch contract erbyn 30 Ionawr 2020.

C: Beth fydd yn digwydd os nad ydw i am dderbyn yr estyniad blynyddol i fy Nghontract?

A: Os yw'ch contract Glastir Organig yn cynnwys yn unig dir a ddaeth yn rhan o'r cynllun ar 1 Ionawr 2015, daw'ch contract a'ch taliadau i ben ar 31 Rhagfyr 2019.

Os yw'ch contract Glastir Organig yn cynnwys tir arall a ddaeth yn rhan o'r cynllun ar naill ai 1 Ionawr 2016 neu 1 Ionawr 2017, bydd taliad yn dal i gael ei dalu ichi ar y tir hwnnw (cyn belled â'ch bod yn cadw at reolau'r cynllun), ond bydd y cymorth ar gyfer tir 2015 yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2019.

Os byddwch chi am bara i gael y taliadau ar gyfer tir arall y cynllun (tir 2016 a/neu 2017), RHAID ichi dderbyn y cynnig hwn i estyn eich contract ac anfon manylion unrhyw newidiadau i'ch contract i RPW trwy'ch cyfrif RPW erbyn 30 Ionawr 2020.

C: Mae gen i gontract Glastir Organig sy'n cynnwys tir a ddaeth yn rhan o'r contract mewn blynyddoedd gwahanol, a fydd yr estyniad yn cynnwys fy holl dir?

A: Mae'r cynnig i estyn y contract ar gyfer tir ddaeth yn rhan o'r cynllun ar 1 Ionawr 2015 ac a ddaw i ben ar 31 Rhagfyr 2019 YN UNIG.

Os ydych chi am bara i gael y taliadau ar y tir a ddaeth yn rhan o'r contract yn 2016 a/neu 2017 ond nid y tir a ddaeth yn rhan ohono yn 2015, RHAID ichi dderbyn y cynnig estyn hwn a rhoi gwybod erbyn 30 Ionawr 2020 i RPW trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein eich bod am newid eich contract.

C: Beth fydd yn digwydd i'r tir a ddaeth yn rhan o'r cynllun yn y blynyddoedd wedi hynny, ar 1 Ionawr 2016 a 1 Ionawr 2017?

A: Bydd y tir a ddaeth yn rhan o'r cynllun ar 1 Ionawr 2016 yn para i dderbyn taliad yn unol â'ch contract gwreiddiol h.y. tan 31 Rhagfyr 2020.

Bydd y tir a ddaeth yn rhan o'r cynllun ar 1 Ionawr 2017 yn para i dderbyn taliad yn unol â'ch contract gwreiddiol h.y. tan 31 Rhagfyr 2021.

Os ydych chi am bara i gael y taliadau ar y tir a ddaeth yn rhan o'r contract yn 2016 a/neu 2017 ond nid y tir a ddaeth yn rhan ohono yn 2015, RHAID ichi dderbyn y cynnig estyn hwn a rhoi gwybod erbyn 30 Ionawr 2020 i RPW trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein eich bod am newid eich contract.

C: A fydd yna gyfle i ychwanegu tir at y cynllun?

A: Ni fydd rhagor o gyfnodau datgan diddordeb yn y cynllun Glastir Organig er mwyn ychwanegu tir 'newydd' at y contract Organig.

C: Sut ydw i'n derbyn fy estyniad? A beth yw'r dyddiad cau?

A: Bydd y contract yn cael ei gynnig ichi trwy RPW Ar-lein. Yna bydd angen ichi dderbyn y contract trwy bwysu'r botwm glas ar RPW ar-lein o fewn 21 niwrnod ar ôl inni gynnig y contract i chi.

C: Beth sydd angen imi ei wneud i wrthod yr estyniad?

A: Dim. Ni fydd y contract ar gael i chi ei dderbyn ar ôl i'r 21 niwrnod fynd heibio.

C: Os bydda i'n gwrthod estyniad, a fydd angen imi dalu unrhyw arian sydd wedi'i dalu imi o dan y contract gwreiddiol yn ôl?

A: Na fydd. Mae'ch estyniad yn gontract ar wahân i'ch contract Glastir Organig 5 mlynedd gwreiddiol.

Os oes gennych dir a ddaeth yn rhan o'r cynllun ar 1 Ionawr 2016 a/neu ar 1 Ionawr 2017 a'ch bod yn dal am gael taliad ar y tir hwnnw, yna RHAID ichi dderbyn y cynnig hwn i estyn eich contract. Os nad ydych chi am gael eich talu mwyach ar y tir a ddaeth yn rhan o'r cynllun ar 1 Ionawr 2015, rhaid rhoi gwybod erbyn 30 Ionawr 2020 i RPW trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein eich bod am newid eich contract.

C: Pa daliadau alla i eu disgwyl?

A: Cyn belled â'ch bod yn cadw at reolau'r cynllun, a bod eich hawliad blynyddol yn cael ei ddilysu a'i gymeradwyo, cewch eich talu ar raddfa'r 'taliad cynnal'.

Math o Daliad	Cynnal Organig	Costau Ardystio Blynyddol*
Cyfradd Dalu 1	£400/ha	£80/ha
Cyfradd Dalu 2	£65/ha	£10/ha
Cyfradd Dalu 3	£15/ha	£3/ha
*Bydd cap o £500 ar gyfer costau ardystio fesul contract y flwyddyn.		

C: A fydd gofyn i'r tir fod o dan fy rheolaeth lwyr dros gyfnod yr estyniad yn ogystal â 5 mlynedd y contract gwreiddiol?

A: Bydd. Rhaid bod gan ddeiliad y contract Reolaeth Lwyr ar y tir sy'n rhan o'i gontract Glastir Organig 5 mlynedd gwreiddiol a'r estyniad.

C: Mae'r estyniad sy'n cael ei gynnig yn cynnwys tir y bydda' i'n colli rheolaeth arno yn ystod cyfnod y contract. Beth dylwn ei wneud?

A: Rhaid tynnu'r tir hwn o'r estyniad i'ch contract. Rhaid ichi dderbyn y cynnig i estyn eich contract ar-lein o fewn 21 niwrnod ar ôl cynnig yr estyniad ichi a rhoi gwybod erbyn 30 Ionawr 2020 i RPW trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein eich bod am newid eich contract. Byddwn wedyn yn tynnu'r tir dan sylw ac yn anfon contract newydd atoch chi.

Dyma'ch atgoffa bod yn rhaid ichi roi gwybod i RPW am unrhyw newidiadau i'ch tir o **fewn 30 niwrnod** ar ôl i'r newid ddechrau.

C: A fydda i'n cael trosglwyddo tir yn ystod yr estyniad o flwyddyn?

A: Byddwch. Byddwch yn cael trosglwyddo tir o dan yr estyniad hwn. Rhaid i'r sawl sy'n cymryd y tir wneud yn siŵr fod y tir o dan ei reolaeth a bod y tystysgrifau ardystio'n ddilys gydol y trosglwyddiad. Rhaid i'r sawl sy'n cymryd y tir hawlio ar y tir hwnnw ar ei Ffurflen Cais Sengl

C: A fydd angen imi ddangos tystysgrif a rhestr tir gan Gorff Ardystio Organig ar gyfer cyfnod yr estyniad?

A: Bydd. Rhaid sicrhau bod holl dir y contract wedi'i ardystio am gyfnod llawn y contract gan gynnwys cyfnod yr estyniad, hyd at a chan gynnwys 31 Rhagfyr 2020.

C: A fydda i'n dal i gael costau ardystio i dalu am fy nhystysgrif flynyddol oddi wrth fy Nghorff Rheoli Organig?

A: Byddwch. Cyn belled â bod y tir wedi'i ardystio a'i fod wedi'i nodi yn y dystysgrif a'r rhestr tir a gyflwynwyd i RPW.

C: Sut mae taliad estyniad fy nghontract yn cael ei gyfrif?

A: Bydd cyfradd 'taliad cynnal' yn cael ei dalu ar dir o dan yr estyniad hwn, fel eich contract gwreiddiol. Nid yw hwn yn gyfle i newid eich amodau er mwyn cael mwy o daliad ar dir yr estyniad.

C: Pryd ca i'r estyniad i fy nghontract?

A: Caiff yr estyniad i'ch contract ei roi ichi trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein yn yr hydref a chewch 21 niwrnod i dderbyn y contract sy'n cael ei gynnig ichi trwy bwysu ar y botwm glas.

C: Cynllun Busnes 5 Mlynedd - a oes angen imi baratoi cynllun busnes newydd ar gyfer cyfnod yr estyniad?

A: Nac oes. Does dim angen ichi ailgrifennu'ch cynllun busnes.

Gofynion Garddwriaethol:

C: Rheol 5 mlynedd y parcel: Bydd gofyn ichi fod wedi plannu cnwd garddwriaeth ar dir Cyfradd Dalu 1 o leiaf unwaith yn y 5 mlynedd. A fydd RPW yn fodlon rhoi estyniad i mi os na wnes i fodloni'r amod yn y 5 mlynedd cynta?

A: Na fydd. Dylech fod wedi bodloni'r amod hwn yn y pum mlynedd cynta.

C: A ga i newid fy nhir Cyfradd Dalu 1 (Garddwriaeth) yn dir Cyfradd Dalu 2 fel rhan o'r estyniad neu a fydd yn rhaid i'r Gyfradd Dalu aros yr un peth?

A: Bydd yr estyniad yn cynnwys yr holl dir oedd o dan eich contract Glastir Organig ar 1 Ionawr 2015 yn unig. Nid yw'n gyfle i newid amodau'ch tir. Bydd angen ysgrifennu i RPW trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein i ofyn i RPW ystyried unrhyw newidiadau allai effeithio ar ofynion rheoli'ch contract.

C: Ydy'r lleiafswm o 40% y flwyddyn yn aros?

A: Bydd yr un amodau ar dir y contract presennol ag ar dir yr estyniad i'r contract.

C: Os bydda' i'n torri'r amodau yng nghyfnod yr estyniad i'r contract, a fydd hyn yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y taliadau y bydda i wedi'u cael dan fy nghontract Glastir Organig gwreiddiol?

A: Os bydd y dystiolaeth yn dangos eich bod wedi torri'r amodau yn ystod cyfnod eich contract gwreiddiol, efallai y byddwn hefyd yn cosbi'r taliadau sydd eisoes wedi'u talu ichi.

C: Os daw fy nghontract Glastir Organig i ben, a fydda i dal wedi fy eithrio rhag rheolau Gwyrddu'r BPS?

A: Byddwch. Bydd yn rhaid ichi gydymffurfio'n llawn â rheolau Gwyrddu'r BPS.

C: Sut mae hawlio fy nhaliad blynyddol?

A: Rhaid ichi bara i hawlio am eich taliad blynyddol ar eich Ffurflen Cais Sengl, a rhaid ichi hawlio ar bob parcel tir sydd yn estyniad eich contract.